Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn - blwyddyn academaidd 2018-2019

Awdurdod Derbyn: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO)

Ysgrifennydd y Fforwm: Bethan White **Manylion cyswllt: pupilservices@bridgend.gov.uk 01656 642650**

Cyfeiriad: Tîm Cymorth Dysgwyr, Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

Aelodaeth a phresenoldeb yn y Fforwm

Enw	Swydd	Cyfnod yn gwasanaethu fel Aelod o'r Fforwm *	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Mr R Davies	Rheolwr Grŵp - Strategaeth Busnes a Pherfformiad, Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr **Cadeirydd o ganol mis Hydref 2014, ailethol ym mis Hydref 2019**	4 blynedd	**LA**
2. Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis **Is-gadeirydd o ganol mis Hydref 2014, wedi'i ailethol ym mis Hydref 2019**	5 mlynedd	**CIW/VA**
3. Cyng. Mr C Smith	Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	2 flynedd	**LA**
4. Mrs D Davies	Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth Dysgwyr, y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Blwyddyn	**LA**
5. Mr A Slade	Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl	2 flynedd	**S/CV**
6. Mrs A Keller	Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath	3 blynedd	**S/VA**
7. Mrs K John	Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla	Blwyddyn	**S/CV**
8. Mrs S Jayne	Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Ogwr	Blwyddyn	**S/CV**
9. Mr J Evans	Pennaeth, Ysgol Heronsbridge	Blwyddyn	**S/CV**
10. Mr W Bond	Ysgol Gynradd Croesty	11* mlynedd (ailbenodwyd ar 16 Tachwedd	**PG**

***Os gwasanaethwyd am gyfnod hwy na 4 blynedd, dylech hefyd nodi'r dyddiad ailethol.**

Byrfoddau ar gyfer Aelodau Craidd		
Aelodau wedi'u Henwebu gan	**Aelodaeth Graidd**	**Byrfodd**
LA- unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	**LA, LA/SEN, LA/LAC**
Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	**CIW**
Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys Gatholig	1 i 3	**RC**
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol rheoledig	1 i 3	**S/CV**
Ysgolion - sefydledig	1 i 3	**S/F**
Ysgolion - gwirfoddol a gynorthwyir	1 i 3	**S/VA**
Cynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr	1 i 3	**PG**
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3	**L/COM**

Dyddiadau cyfarfod a phresenoldeb

	Dyddiad	**Nifer aelodau'r fforwm yn bresennol - yn ôl categori**
Y cyfarfod cyntaf	**15 Tachwedd 2018**	**7 :** 2 x LA 1 x S/VA; 3 x S/CV; 1 x PG
Yr ail gyfarfod	**11 Ebrill 2019**	**7 :** 2 x LA 1 x S/VA; 3 x S/CV; 1 x PG

Cadarnhewch a yw awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r broses ar gyfer ymgynghori a phenderfynu ynghylch trefniadau derbyn o fewn y graddfeydd amser sy'n ofynnol yn Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os oes unrhyw awdurdod derbyn heb fodloni'r graddfeydd amser, rhowch eu manylion yma.

Faint o ddogfennau ymgynghori yr ydych chi wedi'u gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Mae'n rhaid ymgynghori ynghylch trefniadau derbyn y 'flwyddyn benderfynu' gan ddechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi.

Yn 2018-19, roedd trefniadau 2020-21 yn cael eu pennu. Cwblhaodd yr holl awdurdodau derbyn o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yr ymgynghoriad a phenderfynu ar y trefniadau derbyn ar gyfer 2020-21 o fewn y graddfeydd amser a nodir yn y Rheoliadau.

Ni welwyd unrhyw ddogfennau ymgynghori yn 2018-19 gan awdurdodau derbyn eraill nad ydynt yn awdurdodau lleol.

Pa drefniadau derbyn sydd wedi cael eu sefydlu er budd plant agored i niwed?

A fuont yn llwyddiannus?

Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi i gynorthwyo'r plant hyn?

Mae proses dderbyn ganolog yr awdurdod lleol yn galluogi rheolaeth a threfniadau monitro gwell wrth dderbyn plant sy'n agored i niwed.

Ar gyfer cylchoedd derbyn a'r derbyniadau/trosglwyddiadau o fewn y flwyddyn yn ystod 2018-19, rhoddwyd y flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal neu a oedd gynt yn derbyn gofal wrth dderbyn i'w dewis ysgol. Bu'r Tîm Cymorth Dysgwyr yn cydweithio'n agos â'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed er mwyn sicrhau bod y disgyblion hynny'n gallu derbyn darpariaeth briodol.

Derbyniwyd pob plentyn â datganiad anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r lleoliad a enwyd ar y datganiad terfynol.

Mae meini prawf yr awdurdod lleol ar gyfer sefyllfaoedd lle ceir mwy o geisiadau nag o leoedd sydd ar gael, ac sy'n berthnasol mewn cylchoedd derbyn, yn nodi'r flaenoriaeth gymharol a roddir i geisiadau mewn perthynas â phlant â chyflyrau meddygol neu seicolegol, neu amgylchiadau cymdeithasol neilltuol (ee, gofalwyr ifanc). Byddai ceisiadau'n cael blaenoriaeth o dan y maen prawf lle byddai'r dystiolaeth ofynnol yn cael ei darparu gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig (y rhesymau pam yr ystyriwyd mai'r ysgol a ffafriwyd oedd yr ysgol fwyaf addas, a'r anawsterau a fyddai'n codi pe bai'n rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall) a'i derbyn. Ar gyfer ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn yn gysylltiedig â'r plant hynny, lle nad oedd capasiti yng ngrŵp blwyddyn yr ysgol a geisiwyd, byddai'r un gofynion o ran tystiolaeth a'r un ystyriaethau'n berthnasol er mwyn penderfynu'n derfynol a ellid cynnig lle yn yr ysgol honno.

Yn 2018-19, cafodd plant teulu o ffoaduriaid gefnogaeth i gyrchu darpariaeth addysg briodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu pa leoliad sydd orau gan roi ystyriaeth lawn i gyngor Gwasanaeth Cynhwysiant yr awdurdod lleol ynghylch asesiad anghenion pob plentyn a'r ddarpariaeth fwyaf priodol, yn ogystal â'r gymuned y mae'r plentyn yn byw ynddi.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn gysylltiedig â phlant a oedd yn bodloni'r diffiniad o blentyn aelod o luoedd arfog y DU neu Was y Goron.

Mae'r Panel Mynediad i Addysg yn ystyried disgyblion sy'n agored i niwed ac anodd eu lleoli sydd wedi cael eu hatgyfeirio. Mae'r panel yn cyfarfod yn fisol a'i swyddogaeth yw:

- cydweithio er budd pennaf disgyblion a gaiff eu hatgyfeirio;
- sicrhau bod anghenion disgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio yn cael eu bodloni a chynnig darpariaeth yn brydlon;
- ystyried unrhyw gymorth cynllunio neu gymorth ychwanegol sydd ei angen tra bydd disgyblion yn disgwyl am ddarpariaeth; a
- sicrhau cyfrifoldeb/atebolrwydd dros ddisgyblion unigol sydd wedi'u hatgyfeirio.

Wrth gyflawni ei swyddogaeth, bydd y Panel Mynediad i Addysg:

- yn monitro a chynghori ynghylch risgiau a phroblemau a allai atal disgybl sydd wedi'i atgyfeirio rhag cael mynediad i addysg a gwireddu ei botensial;
- yn cychwyn cyfarfodydd a gweithgareddau datrys problemau sy'n cynorthwyo disgybl wedi'i atgyfeirio i gael mynediad i addysg a ffynnu mewn addysg;
- yn ymdrechu i ddarparu addysg addas, effeithlon ac amser llawn i'r holl ddisgyblion a gaiff eu hatgyfeirio yn brydlon;
- yn rhoi sylw dyladwy i unrhyw angen meddygol a nodwyd, bod yr angen hwnnw'n angen corfforol neu feddygol neu'n unrhyw angen dysgu ychwanegol (ADY);
- yn rhoi sylw dyladwy i fannau gwan gwirioneddol neu bosibl a nodwyd mewn disgyblion sydd wedi'u hatgyfeirio, gan gynnwys a oes unrhyw bryderon diogelu neu amddiffyn plant, a yw'r disgybl yn blentyn sy'n derbyn gofal neu'n aelod o grŵp a nodwyd yn grŵp a allai fod yn agored i niwed, ymhlith agweddau eraill;

- yn canolbwyntio ar y plentyn ym mhob agwedd ar gynllunio a darparu;
- yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i ddiogelu data a'r angen am breifatrwydd wrth rannu a thrin gwybodaeth; ac
- yn ystyried hawliau'r plentyn o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae gwaith nifer o is-baneli yn llywio penderfyniadau a wneir gan y Panel Mynediad i Addysg, er enghraifft Panel CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) a'r Panel Achosion Meddygol Cymhleth.

Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn o fewn y flwyddyn, y cytunwyd arnynt, wedi gweithio?

Faint o blant sydd wedi cael eu derbyn i bob ysgol dan y gweithdrefnau?

Ydych chi wedi canfod cynnydd yn niferoedd y derbyniadau o fewn y flwyddyn; os felly, pa gamau sydd wedi eu nodi i fynd i'r

afael â'r broblem?

Mae gan yr awdurdod lleol broses gadarn. Cafodd yr holl geisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn eu hystyried yn yr un drefn yn union a'r dyddiad pan gawsant eu derbyn, ac yn erbyn nifer derbyniadau cyhoeddedig yr ysgol a geisiwyd a strwythurau a niferoedd cyfredol y dosbarthiadau. Ystyriwyd amgylchiadau penodol y plentyn a'r teulu, os oedd hynny'n briodol. Os oedd lle ar gael yn ngrŵp blwyddyn perthnasol yr ysgol a geisiwyd, cynigiwyd y lle i'r plentyn. Os nad oedd lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol a geisiwyd, gwrthodwyd y cais a hysbysodd yr awdurdod lleol yr ymgeisydd/ymgeiswyr ynghylch yr ysgol nesaf agosaf ac ynddi le ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol, a'r hawl i apelio (yn gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer addysg statudol).

Dangosir nifer y ceisiadau o fewn y flwyddyn/trosglwyddo a broseswyd yn Ffigurau 1 a 3 isod. Yn y pedair blynedd academaidd o 2015 i 2019, roedd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a broseswyd ar gyfer ysgolion oed cynradd yn tueddu i gynyddu, tra'r oedd ceisiadau ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn tueddu i fod yn sefydlog.

Mae Ffigurau 2 a 4 yn dangos bod canran y ceisiadau ar gyfer disgyblion oed cynradd na aeth rhagddynt yn tueddu i gynyddu, gyda chynnydd mwy sylweddol yn 2018-19 nag yn y blynyddoedd cynt. Roedd ceisiadau na aethant rhagddynt ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn tueddu i fod yn sefydlog.

Mae Ffigur 5 yn dangos nifer cyfartalog y diwrnodiau ysgol rhwng yr adeg pan fydd ceisiadau'n dod i law, a phan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch derbyn. Ym mhob un o'r pedair blwyddyn academaidd, roedd perfformiad yr awdurdod lleol yn is na'r targed o ran uchafswm y diwrnodiau a nodwyd yng Nghod Derbyniadau Ysgol statudol 2013, sef 15 diwrnod ysgol. Mae angen edrych ar berfformiad yng nghyd-destun tueddiadau yn nifer y ceisiadau a gafwyd yn y pedair blwyddyn academaidd.

O flwyddyn academaidd 2017-18, mabwysiadodd yr awdurdod lleol yr ymagwedd a ganiateir o dan God Derbyniadau Ysgol statudol 2013 yn gysylltiedig ag achlysuron lle bydd lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol a geisir, ond lle nad yw'r cais derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn wedi'i gyflwyno gan fod disgybl yn symud tŷ, a lle bo'r awdurdod lleol o'r farn nad oes angen symud ysgol ar unwaith. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr awdurdod lleol yn trefnu i'r plentyn ddechrau'r ysgol ar ddechrau'r tymor dilynol. Gwneir hyn er mwyn tarfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar addysg y plentyn a phlant eraill yn yr ysgol. Yn Ffigur 6 nodir y nifer cyfartalog o ddiwrnodiau ysgol rhwng y dyddiad pan ddaeth y cais derbyn/trosglwyddo i law o fewn y flwyddyn a'r dyddiad pan gafodd y disgyblion hyn eu cynnwys ar gofrestr yn yr ysgol gytunedig dros y pedair blynedd academaidd diwethaf.

Mae ffigurau 6 a 7 yn darparu gwybodaeth am apelau derbyniadau ysgol sy'n deillio o geisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn a wrthodwyd gan nad oedd lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol a geisiwyd.

Mae Atodiad A yn darparu data ar gyfer cylchoedd dderbyn 2028-2019 (a weithredwyd o fewn blwyddyn academaidd 2017-18).

Ffigur 1



Ffigur 2



Ffigur 3



Ffigur 4



Ffigur 5


Nifer cyfartalog y diwrnodiau ysgol rhwng yr adeg pan ddaw ceisiada
derbyn/trosglwyddo i law a phenderfyniadau ynghylch derbyn
16
14
12
10
8
6
4
2
0
13.14
6.88
8.41
5.38
3
3.31
7.09
5.08
2015-2016
2016-2017
2017-2018
2018-2019
Academic Year
Nifer cyfartalog y diwrnodiau ysgol – disgyblion oed cynradd

Ffigur 6

Blwyddyn Academaidd	Nifer cyfartalog o ddiwrnodiau ysgol rhwng derbyn cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn a'r dyddiad ar y gofrestr					
	Cynradd		Uwchradd		Pob un	
2015-2016	18.237		20.551		18.781	
2016-2017	14.954		20.354		16.234	
2017-2018	19.177		28.888		20.888	
	Gohiriedig a heb ei ohirio					
	Heb ei ohirio	Gohiriedig	Heb ei ohirio	Gohiriedig	Heb ei ohirio	Gohiriedig
2017-2018	11.042	29.252	16.038	28.110	12.026	28.930
2018-2019	18.996	21.538	19.701	27.45	19.067	24.532

Ffigur 7


Apelau'n codi yn sgil gwrthod ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn ar gyfer ysgolion cynradd
Y flwyddyn academaidd pan gofrestrwyd yr apêl
70
60
50
40
30
20
10
0
9
6
0
3
2
2
31
26
11
64
44
15
2015-2016
2016-2017
2017-2018
2018-2019
Nifer yr apelau cynradd a gofrestrwyd
Nifer yr apelau a aeth rhagddynt
Nifer yr apelau llwyddiannus

Ffigur 8


Apelau'n codi yn sgil gwrthod ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn ar gyfer ysgolion uwchradd
Y flwyddyn academaidd pan gofrestrwyd yr apêl
6
0
0 0 0 0 0 0 5 3 2 3 2 0
2015-2016
2016-2017
2017-2018
2018-2019
Nifer yr apelau uwchradd a gofrestrwyd
Nifer yr apelau a aeth rhagddynt
Nifer yr apelau llwyddiannus

Pa faterion derbyn allweddol sydd wedi cael eu canfod yn yr ardal?

Beth ydynt a sut mae'r fforwm wedi ymdrin â'r rhain?

- **Capasiti ysgolion a'r pwysau ar lefydd mewn ysgolion -** hysbyswyd aelodau'r fforwm ynghylch mannau o fewn y sir lle ceir pwysau mawr a chamau monitro'r awdurdod lleol. Trafodwyd data a gwybodaeth am apelau derbyn, a materion a oedd yn codi.

- **Cyhoeddodd yr ysgol niferoedd derbyn cyhoeddedig (PANs) ar gyfer 2019-2020** - nododd aelodau'r fforwm gynigion ar gyfer cynyddu PANs rhai ysgolion cynradd a'r cyfiawnhad dros y newidiadau.

- **Adolygu dalgylchoedd ysgolion -** nododd aelodau'r fforwm fod yr awdurdod lleol yn comisiynu adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion, gan asesu effeithiau posibl ar ysgolion lle ceir mwy neu lai o geisiadau na'r llefydd sydd ar gael, a'r goblygiadau o ran cymhwystra trafnidiaeth ysgolion.

- **Derbyniadau ysgol ar-lein -** derbyniodd aelodau'r fforwm y newyddion diweddaraf ynghylch gweithredu derbyniadau ysgol ar-lein, y camau a gymerwyd i ymdrin ag unrhyw broblemau wrth iddynt godi, a manteision y datblygiad i ymgeiswyr ac i'r awdurdod lleol.

- **Polisi Derbyniadau Drafft 2020-2021 -** bu aelodau'r fforwm yn ystyried cynigion ar gyfer newidiadau i bolisi'r flwyddyn flaenorol ac yn derbyn y rhesymau a'r angen am y newidiadau, yn nodi ac yn cymeradwyo'r dyddiadau cyffredin ar gyfer y cylchoedd derbyn, ac yn cymeradwyo'r polisi terfynol ar gyfer ymgynghori.

- **Prosbectws cyfansawdd - 'Dechrau'r Ysgol' -** roedd aelodau'r fforwm yn cydnabod bwriad yr awdurdod lleol i adolygu a gwella cynnwys y prosbectws.

- **Rhaglen ail-sefydlu ffoaduriaid -** hysbyswyd aelodau'r fforwm ynghylch y trefniadau derbyn priodol a wnaed i'r plant yn y teuluoedd ychwanegol a gafodd eu hailsefydlu yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y flwyddyn.

- **Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn 2017-2018 -** bu aelodau'r fforwm yn trafod agweddau ar yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-2018.

Pa ddulliau y mae'r fforwm wedi'u defnyddio i gyhoeddi unrhyw gyngor neu benderfyniadau y mae wedi'u gwneud.
Rhannwyd ymatebion y fforwm i gynigion / materion gyda rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau derbyn eraill, drwy fecanweithiau cyfathrebu arferol yr awdurdod lleol. Cyhoeddir Cylch Gorchwyl, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol y fforwm ar dudalen benodol y Fforwm Derbyniadau Ysgol ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dyddiad cyhoeddi cyngor y fforwm ar wefan yr awdurdod derbyn:

Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfod y fforwm a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 a mis Ebrill 2019 ar dudalen y Fforwm Derbyniadau Ysgol ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ionawr 2020.

Darparwch y ddolen berthnasol hefyd:

Llofnod: **(Ysgrifennydd y Fforwm)**

Dyddiad: 18/02/2020

Cwblhewch yr adroddiad a'i ddychwelyd erbyn 2 Rhagfyr 2019 i:

SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

Atodiad A: Cylchoedd derbyn cynradd (derbyn), iau (blwyddyn 3) ac uwchradd (blwyddyn 7) ar gyfer Medi 2018 - ceisiadau a gafwyd ac apelau'n deillio o hynny

Enw'r ysgol gynradd	Nifer derbyn cyhoeddedig	Nifer y ceisiadau a gafwyd	Nifer y dewisiadau rhieni a fodlonwyd 1; 2; 3; arall	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apelau a gyflwynwyd mewn pryd	Nifer yr apelau llwyddiannus	Nifer yr apelau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod
Ysgol Gynradd Abercerdin	30	29	29	29	0	0	0
Ysgol Gynradd Afon y Felin	19	16	16	16	0	0	0
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis	30	21	21	21	0	0	0
Ysgol Gynradd Betws	30	32	30; 0; 0; 2 (derbyn i ddarpariaeth arbenigol)	30	0	0	0
Ysgol Gynradd Blaengarw	24	25	25	25	0	0	0
Ysgol Gynradd Bracla	45	38	38	38	0	0	0
Ysgol Gynradd Bryncethin	34	47	34; 8; 5; 0	34	6	0	6
Ysgol Gynradd Brynmenyn	60	34	34	34	0	0	0
Ysgol Fabanod Bryntirion	40	32	32	32	0	0	0
Ysgol Gynradd Caerau	60	37	32; 0; 0; 5 (derbyn i ddarpariaeth arbenigol)	32	0	0	0
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	20	20	20	20	0	0	0
Ysgol Fabanod Cefn Glas	66	34	34	34	0	0	0
Ysgol Gynradd Coety	60	74	60; 9; 4; 1	60	3	0	0
Ysgol Gynradd Corneli	46	32	32	32	0	0	0
Ysgol Gynradd Llangrallo	19	19	18; 1; 0; 0	18	0	0	0

Enw'r ysgol gynradd	Nifer derbyn cyhoeddedig	Nifer y ceisiadau a gafwyd	Nifer y dewisiadau rhieni a fodlonwyd 1; 2; 3; arall	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apelau a gyflwynwyd mewn pryd	Nifer yr apelau llwyddiannus	Nifer yr apelau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod
Ysgol Gynradd Croesty	30	25	25	25	0	0	0
Ysgol Gynradd Cwmfelin	30	29	29	29	0	0	0
Ysgol Gynradd Ffaldau	27	17	17	17	0	0	0
Ysgol Gynradd Garth	30	24	24	24	0	0	0
Ysgol Gynradd Llidiard	60	62	60; 1; 1; 0	60	0	0	0
Ysgol Iau Llangewydd	90	81	81	81	0	0	0
Ysgol Gynradd Llangynwyd	14	7	7	7	0	0	0
Ysgol Gynradd Maes yr Haul	75	60	60	60	0	0	0
Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig	60	45	45	45	0	0	0
Ysgol Gynradd Nantyffyllon	40	25	25	25	0	0	0
Ysgol Gynradd Nantymoel	30	25	25	25	0	0	0
Ysgol Gynradd Newton	33	25	25	25	0	0	0
Ysgol Gynradd Notais	60	53	53	53	0	0	0
Ysgol Gynradd Bro Ogwr	53	45	44; 0; 0; 1	44	0	0	0
Ysgol Gynradd Hen Gastell	60	58	58	58	0	0	0
Ysgol Gynradd Pencoed	72	74	72; 1; 1; 0	72	0	0	0
Ysgol Gynradd Pen-y-bont	45	41	41	41	0	0	0
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai	30	33	30; 2; 1; 0	30	1	0	0
Ysgol Gynradd y Pîl	30	22	22	22	0	0	0

Enw'r ysgol gynradd	Nifer derbyn cyhoeddedig	Nifer y ceisiadau a gafwyd	Nifer y dewisiadau rhieni a fodlonwyd 1; 2; 3; arall	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apelau a gyflwynwyd mewn pryd	Nifer yr apelau llwyddiannus	Nifer yr apelau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod
Ysgol Gynradd Plasnewydd	45	27	27	27	0	0	0
Ysgol Gynradd Porthcawl	25	25	25	25	0	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	30	24	24	24	0	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig	25	24	24	24	0	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert	22	21	21	21	0	0	0
Ysgol Gynradd Tondu	42	33	33	33	0	0	0
Ysgol Gynradd Trelales	30	16	16	16	0	0	0
Ysgol Gynradd Tremain	65	43	43	43	0	0	0
Ysgol Gynradd Tynyrheol	10	6	6	6	0	0	0
Ysgol Gynradd West Park	55	35	35	35	0	0	0
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	54	55	55	55	0	0	0
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw	30	28	28	28	0	0	0
Ysgol Gynradd Gymraeg Cynwyd Sant	45	28	28	28	0	0	0
Ysgol Y Ferch o'r Sgêr	33	16	16	16	0	0	0
Cyfanswm	**1,963**	**1,622**	**1,579; 14; 7; 9**	**1,579**	**10**	**0**	**0**

Enw'r ysgol uwchradd	Nifer derbyn cyhoeddedig	Nifer y ceisiadau a gafwyd	Nifer y dewisiadau rhieni a fodlonwyd 1; 2; 3; arall	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apelau a gyflwynwyd mewn pryd	Nifer yr apelau llwyddiannus gan rieni	Nifer yr apelau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod
Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath	131	159	157, (gwrthodwyd 2)	157	1	0	0
Ysgol Brynteg	333	272	272	272	0	0	0
Ysgol Gyfun Bryntirion	210	251	210; 19; 12, 10	210	25	7	0
Coleg Cymunedol Y Dderwen	276	251	243; 0; 0; 8	253	0	0	0
Ysgol Gyfun Cynffig	180	129	129	129	0	0	0
Ysgol Maesteg	228	165	165	165	0	0	0
Ysgol Gyfun Pencoed	214	143	141	143	0	0	0
Ysgol Gyfun Porthcawl	246	216	216	216	0	0	0
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	165	104	103	104	0	0	0
Cyfanswm	**1,983**	1690	1635; 19; 12; 18	1649	26	7	0